Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 19 Mawrth am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Anne Roberts a Dave Snape.

63. RHUTHUN – TREF FARCHNAD Y DYFODOL - DIWEDDARU'R CYNLLUN

Cyflwynodd y Cynghorydd Gavin Harris ddiweddariad ynghylch y trefniadau ar gyfer wythnos Rhuthun y dyfodol a chyflwynodd lythyr cynnig Matthew Jones i'r Clerc.
PENDERFYNWYD*: cynnal cyfarfod Gweithgor Rhuthun y Dyfodol yng ngwesty'r Manorhaus ddydd Gwener, 23 Mawrth am 10 o'r gloch y bore.*

64. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ian Lewney ac Emrys Wynne.

65. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

66. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018 yn gywir.*

67. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

68. DYFYNBRISIAU CYNNAL A CHADW'R GOFEB RHYFEL

Cyflwynwyd dau bris i baentio'r rheiliau, gan Dave Whitley a Mr Wheely Shine. Cyflwynwyd tri phris am lanhau'r gofeb ac ailbaentio'r llythrennau, gan Steve Blackwell, P Vallance a Mr Wheely Shine.
PENDERFYNWYD*: derbyn pris Dave Whitley, sef £485.00, o ran paentio'r rheiliau a phris P Vallance, sef £700.00, o ran glanhau ac ailbaentio'r llythrennau ar y gofeb.*

69. PRISIAU TORRI GLASWELLT 2018-19

Cyflwynwyd pris am dorri'r glaswellt gan Gwmni Budd Cymunedol Llanfwrog.
PENDERFYNWYD*: derbyn y pris gan Gwmni Budd Cymunedol Llanfwrog, sef £3,170.34, ar gyfer 2018-19.*

70. PRISIAU DARPARU BLODAU A DYFRIO'R BASGEDI CROG 2018-19

Cyflwynwyd pris am ddarparu'r blodau gan Blanhigion Glyndwr a chyflwynwyd dau bris am y gwaith dyfrio'r blodau.
PENDERFYNWYD*: derbyn pris Planhigion Glyndwr, sef £3,074.40 yn cynnwys TAW, i ddarparu'r blodau a gofyn i'r ddau gwmni a gyflwynodd brisiau dyfrio i gyflwyno prisiau am gyfnod tair blynedd, i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.*

71. ADRODDIADAU ARCHWILIADAU DIOGELWCH

Cyflwynwyd yr adroddiadau archwiliadau diogelwch blynyddol ynghylch Parc Sglefrfyrddio Rhuthun a maes chwarae'r Caeau Coffa. Roedd yr holl eitemau a nodwyd yn rhai risg isel.
PENDERFYNWYD*: nodi'r adroddiadau a chadw llygad ar yr eitemau, a gwneud trefniadau i adnewyddu'r arwyddion yn y parc sglefrfyrddio.*

72. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 9 Ebrill 2018 am 6:45pm, ar gais Cadeirydd y Pwyllgor. Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar yr amser cynharach.*